

# Henaint

## Darllen: 1 Samuel 3: 9–10

Un o gymeriadau'r Hen Destament sy'n haeddu'n sylw y tro hwn. Ceir ei hanes ym mhenodau cyntaf Llyfr Cyntaf Samuel (1 Samuel 1–4). Dyma hanes trist am hynafgwr yn ei wendid a'i wewyr. Roedd Eli yn offeiriad yn Seilo, sef safle arbennig yng nghanolbarth y wlad lle cedwid Arch y Cyfamod, nid mewn pabell ond mewn adeilad oedd yn deml ac yn dŷ'r Arglwydd. Mae'n debyg iddo fod yn ŵr o gryn ddylanwad, ond darlun gwahanol a geir ohono yn ei henaint a'i wendid yn y penodau hyn. Mae'n bur debyg fod Eli wedi gwasanaethu fel 'barnwr' am oddeutu deugain mlynedd.

Cawn ddarlun o'r hen offeiriad yn eistedd wrth ddrws y deml yn gwyllo Hanna'n gweddïo, a hithau mewn cyflwr pur gythryblus. Credai Eli ei bod wedi meddwi. Ceryddodd Eli hi, ond ar ôl clywed ei stori tosturiodd wrthi a dweud, 'Dos mewn heddwch, a rhodded Duw Israel iti yr hyn a geisiaist ganddo' (1 Samuel 1:17). Pan aned mab iddi, daeth Hanna ag ef i'r deml at Eli, fel yr oedd wedi addo i Dduw. Roedd Eli'n gofalu'n dirion a chywir am Samuel, ond nid felly am ei feibion ei hun – Hoffni a Phinees. Gwelwn yma gyferbynnu dau deulu, teulu Samuel ar y naill law a theulu Eli ar y llaw arall. Mae teulu Samuel yn ostyngedig a gwylaidd, yn deulu hapus, clos a defosiynol gyda mab i fod yn falch ohono ym mherson Samuel ei hun. Mae teulu Eli mor wahanol; y ddau fab yn anufudd ac yn sarhad i'w tad, a hefyd yn warth ar yr offeiriadaeth gyfan. Gellir crynhoi eu pechod dan ddau bennawd – barusrwydd ac anfoesoldeb rhywiol. Mae'n rhaid cofio fod Eli yn brif offeiriad yn Seilo, a bod iddo felly statws aruchel a phwysigrwydd gwleidyddol, wedi 'barnu Israel am ddeugain mlynedd' (1 Samuel 4:18). Ac eto, ni allodd ddisgyblu a chadw trefn ar ei feibion. Roedd hi felly'n argyfwng yn Israel; roedd Eli yn gorfforol analluog i reoli, ac roedd ei ddau fab yn anfoesol ac anghyfrifol.

Ond bu Eli yn gyfrwng i gadarnhau galwad Samuel. Clywodd Samuel lais Duw yn galw arno dro ar ôl tro, ac mae'n amlwg iddo gael gweledigaeth, 'Yna daeth yr Arglwydd a sefyll a galw fel o'r blaen, "Samuel! Samuel!"' (1 Samuel 3:10). Cadarnhaodd Eli fod Samuel wedi clywed Duw yn llefaru, ac felly nid oedd unrhyw amheuaeth ym meddwl Samuel. Mae Eli, bellach, yn hen ac yn ddall, a daeth yr amser iddo drosglwyddo'i fantell i ddyn arall – un ieuengach nag ef. Ond mae Duw'n dangos ei ofal dros ei bobl, oherwydd cyn i Eli farw roedd wedi bod yn gyfrwng i feithrin a pharatoi ei olynydd ym mherson Samuel. Byddai Samuel yn rhoi sadrwydd, cysur a sicrwydd i genedl oedd yn wynebu ar ddyddiau duon ac argyfyngus. Bu Eli'n allweddol yn natblygiad Samuel. Mae yna berygl yn aml i bobl mewn oed dybio y gallan nhw ddal ati i'r diwedd. Onid yw'n bwysig ein bod yn gwybod pryd i roi'r gorau iddi a gadael i eraill gymryd yr arweinyddiaeth?

### **Myfyrdod pellach:**

Sut fyddech chi'n pwyso a mesur cymeriad Eli?

Ydi gwybod pryd i roi'r gorau iddi yn bwysig i arweinyddion yr eglwysi heddiw?